

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19 a 2019/20

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg yn Sir Fynwy yw Ysgol Brenin Harri'r VIII ac mae'n rhan o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS). Mae gan yr ysgol 968 o ddysgwyr ar y gofrestr: 13.5 y cant ohonyn nhw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; 25.86 y cant ohonyn nhw ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); 2.58 y cant ohonyn nhw â Saesneg fel iaith ychwanegol; ac mae 23.19 y cant yn ddysgwyr gradd A* ac A yn gyffredinol, yr ystyrir eu bod yn fwy abl a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 51 y cant yn fechgyn a 49 y cant yn ferched.

Arweinyddion dynodedig ac aelodau'r staff addysgu

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys chwe aelod o staff ac mae 31 mewn swyddi eraill â chyfrifoldebau dysgu ac addysgu. Ceir 61.47 o athrawon yn ogystal â 12.4 o gynorthwywyr addysgu.

Dyraniad grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £24,077 ar gyfer 2018/19 a £36,423 ar gyfer 2019/20.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Hyfforddiant staff – paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd/datblygu arweinyddion

Defnyddiwyd y grant Dysgu Proffesiynol ychwanegol i ariannu nifer o wahanol brosiectau yn Ysgol Brenin Harri'r VIII i ddatblygu dealltwriaeth y staff o'r gofynion newydd ynghylch dysgu, addysgu ac asesu yn y cwricwlwm newydd. Crëwyd gweledigaeth ysgol newydd a oedd yn annog y canlynol:

- ymgysylltiad y staff â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth drwy ddysgu proffesiynol yn yr ysgol a chynorthwywyr addysgu yn cymryd rhan yn y rhaglen Llwybr Dysgu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu
- arweinyddion yn adlewyrchu ar gryfderau presennol y prosesau adolygu gan gymheiriaid mewnol gan arwain at welliannau mewn addysgu, dysgu ac asesu

- arweinyddion yn cyd-ddatblygu cylch ymholi gan gymheiriaid a gefnogir gan ranbarthau a oedd yn cwmpasu adolygu gan gymheiriaid ac wedi'i ategu gan ymchwil gweithredol i ddatblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel

Cydweithredu

Defnyddiodd Ysgol Brenin Harri'r VIII y cyllid ychwanegol hefyd i hwyluso gweithio rhwng ysgolion. Roedd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- gwaith ar draws rhanbarthau a gwaith clwstwr ar weithgareddau megis; archwiliad o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu; rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso; digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu lledaenu'n gywir ar draws clwstwr y Fenni
- creu prosiect mathemateg clwstwr ar gyfer addysgu ar draws cyfnodau allweddol a ddatblygodd dealltwriaeth glir o gynnydd rhifedd dysgwyr
- datblygiad clwstwr dysgu proffesiynol ym maes addysgeg llafaredd
- cydweithredu rhwng arweinyddion canol ar draws y clwstwr i rannu arfer da.

Arweinyddiaeth

I sicrhau bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol i arwain a bodloni heriau'r cwricwlwm newydd, defnyddiodd Ysgol Brenin Harri'r VIII y cyllid ychwanegol i ddarparu rhaglen hyfforddi Colour Works ar gyfer arweinyddion canol ac uwch i fentora ac annog eraill yn yr ysgol i ffynnu.

Iechyd a Lles

Ymgysylltodd Ysgol Brenin Harri'r VIII yn weithredol ar lefel ysgol, awdurdod lleol a rhanbarthol i hybu lles dysgwyr ar draws cymuned yr ysgol drwy:

- ymgysylltu â chlwstwr dysgu proffesiynol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- staff yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lles rhanbarthol i ddatblygu rhwydwaith cryf o arfer gydag ysgolion eraill
- sicrhau capasiti arweinyddiaeth ychwanegol mewn gwaith anghenion dysgu ychwanegol o fewn y clwstwr i sicrhau arfer gorau cyffredin ar draws pob ysgol
- uwch arweinydd yn cymryd rhan mewn prosiect dysgwyr agored i niwed y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Rhoddodd y cyllid ychwanegol amser a chyfle i'r ysgol alluogi athrawon a chynorthwywyr addysgu i weithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar ymholi gweithredol i werthuso a gwella agweddau addysgeg yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Bu gweithio gydag ysgolion eraill ac arbenigwyr allanol hefyd yn fuddiol wrth wneud y cysylltiadau rhwng yr agenda lles/profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac addysgeg eu disgyblaeth pwnc yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y ffordd newydd hon o weithio yn cynyddu hyder a mwynhad aelodau'r staff yn eu swyddi.

Effaith y grant ar ddysgwyr

Cafwyd nifer o effeithiau diddorol ar ddysgwyr yn sgil y cyllid ychwanegol. Arweiniodd y datblygiad o addysgu ar draws y cyfnodau allweddol ym maes mathemateg ac addysgeg rhifedd clwstwr at ganfyddiad cadarnhaol ymhlith y dysgwyr ar draws yr ysgol a lleihawyd unrhyw wahaniaethau rhwng y rhywiau i lefelau dibwys. Trwy weledigaeth yr ysgol, ymgysylltiad â llais y dysgwr, gwaith clwstwr llythrennedd a rhifedd, a datblygiad cwricwlwm datblygiad personol, ymgysylltodd y dysgwyr â'r dull newydd o weithio, a'i fwynhau, gan ddatblygu'r nodweddion angenrheidiol i hysbysu'r pedwar diben.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu gydag ysgolion eraill

Dysgodd Ysgol Brenin Harri'r VIII bod cynllunio strategol cryf yn hanfodol wrth sicrhau eglurder ar draws yr ysgol. Crynhowyd camau gweithredu'r cynllun datblygu mewn gweithgareddau fesul tymor gyda phwyslais ar ddatblygiad staff. Roedd Cyfathrebu hefyd yn allweddol, gyda mwy o bwyslais ar roi gwybodaeth i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr.

Camau Nesaf

Mae aelodau'r staff yn Ysgol Brenin Harri'r VIII yn bwriadu parhau a'u gwaith Cylch Ymholiad Cymheiriaid, gan ymgysylltu â chlwstwr y Fenni a phrosiectau cenedlaethol i ddatblygu a threalu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu gan ddefnyddio'r dyraniad HMS a chyllid o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol.